# Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
# Harbour Consultative Committee

***04 Tachwedd / November 2008***

***Adroddiad yr Uned Forwrol - Maritime Unit Report***

**1 - *Morwriaeth / Navigation***

***1.1*** Ar yr 11eg Awst 2008, fe archwiliwyd yr holl Gymhorthion Mordwyo ym Mhwllheli gan swyddog o Dŷ'r Drindod. Adroddwyd gan yr archwiliwr bod rhan fwyaf o'r cymhorthion mewn cyflwr derbyniol sydd yn galonogol iawn wrth gymharu â'r adroddiad beirniadol a dderbyniwyd gan Dŷ'r Drindod yn dilyn archwiliad 2007.

Mae cymhorthydd marc arbennig pibell arllwys carthffos Hafan y Môr a hefyd chymhorthydd arbennig Dwr Cymru gyferbyn a thraeth Marian y De angen eu cynnal a chadw.

***1.2*** Fe fydd yn anorfod bod staff yr harbwr yn paratoi a gweithredu rhaglen cynnal a chadw yn yr harbwr gan gynnwys rhaglen cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo dros fisoedd y gaeaf gan fod angen ail beintio'r holl gymhorthion a fu wedi eu lleoli ar y fraich hyfforddi. Fe fydd angen sicrhau unwaith yn rhagor bod y byrddau dyfnder dwr, ac y prif lithrfeydd yn cael ei gynnwys oddi fewn y rhaglen waith.

***1.3*** Fe fydd staff yr Uned Amddiffyn yr Arfordir yn cynnal archwiliad hydrograffeg o fasn y marina ac o'r sianel fordwyo yn ystod mis Hydref. Yn dilyn ymgyrch ddiweddar, mae yn ymddangos y bod yna ddyfnder dwr digonol yn y sianel ar hyn o bryd a bod y cyfyngiad gyferbyn a swyddfa'r harbwr wedi lleihau.

Er bod y mynediad i'r harbwr mewnol wedi culhau ychydig ers yr ymgyrch carthu diwethaf, nid yw hyn yn achosi cyfyngiad yn yr ardal hon. Mae'r Uned yn asesu effeithiolrwydd y bwiau dros dro yn rheolaidd ac yn eu hail leoli yn y man priodol fel bo angen.

**2 – *Rheolaeth Hafan / Harbwr***

***2.1*** Cyn y 1af Ebrill 2008, fe roedd Hafan Pwllheli yn cael ei reoli ar ran y Cyngor gan gwmni 'Yacht Haven Management Cyf', a hyn ers pan agorwyd y marina.

***2.2*** Yn dilyn asesiad annibynnol gan gwmni allanol, fe argymhellwyd y dylid mewnoli rheolaeth Hafan Pwllheli am y tymor byr, a bod y Cyngor yn ystyried opsiynau pellach at y dyfodol.

***2.3*** Yn dilyn yr argymhelliad, mae rheolaeth yr Hafan wedi ei fewnoli a rheolaeth wedi ei drosglwyddo yn uniongyrchol i Gyngor Gwynedd ers y 1af Ebrill. Yn ystod y misoedd nesaf, fe fydd y Cyngor yn edrych i'r posibiliadau o unioni rheolaeth harbwr Pwllheli er gwella effeithiolrwydd rheolaeth yr harbwr at y dyfodol. Rhagwelir bydd yn bosibl gweithredu ar unrhyw newidiadau ym mis Hydref 2009.

**3 - *Craen Hafan Pwllheli***

***3.1*** Mae craen yr Hafan, (Hoist) ar y sefydliad ers y cychwyn. Mae'r peiriant yn allweddol ar gyfer codi a lansio cychod drwy'r flwyddyn a hyn ar gyfer cwsmeriaid y Cyngor a chleiant fusnesau cychod lleol. Ni fyddai yn bosibl cynnal yr Hafan heb y craen.

***3.2*** Mae wedi dod yn amlwg yn ystod y misoedd diwethaf bod angen ystyried pwrcasu craen newydd er sicrhau bod y gwasanaeth a gynigwyd yn yr Hafan yn parhau heb doriad, a heb greu anghyfleustra i gwmnïau lleol a chleiant y Cyngor.

3.3 Mae'r Uned Forwrol wedi gwahodd amcan bris craen newydd gan dri cwmni cyfrifol, sef dau gwmni ym Mhrydain ac un gan gwmni yn yr Eidal.
Mae'r prisiau cychwynnol fel a ganlyn:-

Cwmni 1 = £132,590
Cwmni 2 = £108,000
Cwmni 3 = £134,000

Mae angen cyflwyno isafswm 40 wythnos o rybudd cyn bydd yn bosibl derbyn y craen ar y safle gan unrhyw un o'r tri cwmni, ac felly, mae yn anorfod fod yr Uned Forwrol yn adnabod cyllid mor fuan â phosibl ar gyfer pwrcasu craen (hoist) newydd i Hafan Pwllheli ar gyfer 2009.

## ***4 – <u>Digwyddiadau / Events</u>***

***4.1*** Roedd nifer fawr o ddigwyddiadau mawreddog wedi eu cynnal ym Mhwllheli yn ystod 2008. Bu aelodau o'r Clwb Hwylio yn weithgar iawn drwy'r tymor, ac yr ydym oll yn ddiolchgar iawn o'r ymrwymiad gan y gwirfoddolwyr a swyddogion a fu yn sicrhau bod y digwyddiadau wedi bod yn llwyddiannus a chofiadwy.

***4.2*** Un brif uchafbwyntiau'r haf oedd digwyddiad y gystadleuaeth genedlaethol dosbarth ***'Optimist'***. Yr oedd yna oddeutu naw deg o gychod pŵer yn cynorthwyo gyda diogelwch ar y dŵr, ac fe roedd yna ddefnydd trwm ar y llithrfa yn ystod y gweithgaredd. Roedd yna dros 400 o gystadleuwyr ifanc yn cymryd rhan.

***4.3*** Enillodd traeth Pwllheli a Hafan Pwllheli'r Faner Las Ewropeaidd unwaith eto yn 2008 gyda Hafan Pwllheli yn ennill gwobr y 'Pum Angor'. Enillodd traeth Glandon ddyfarniad yr Arfordir Gwyrdd yn 2008, ac fe roedd ein cais am Wobr Traeth Gwledig hefyd yn llwyddiannus.

Fe fydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais i Cadw Cymru Daclus ym mis Tachwedd ar gyfer y gwobrau traeth ar gyfer 2008 er mae yna bosibilrwydd bydd rhai traethau cyfagos yn colli eu statws fel Traethau Gwobredig gan fod yn ymddangos na fod canlyniadau ansawdd dwr ymdrochi wedi cyrraedd y safon angenrheidiol mewn rhai mannau. Fe fydd holl ganlyniadau ansawdd dwr ymdrochi yn cael ei gadarnhau gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y Nadolig.

***4.4*** Cynhaliwyd digwyddiad 'Wakestock' yn yr harbwr ar y 4ydd, 5ed a 6ed Orffennaf 2008. Roedd y tywydd yn llawer mwy ffafriol eleni mewn cymhariaeth a 2007. Cynhaliwyd yr Ŵyl Fwyd ym Mhenrhyn Glandon ar y 7fed ac 8fed Fehefin, ac unwaith eto eleni, roedd yr ŵyl yn llwyddiannus iawn.

Yn 2009, deellir bydd yr Ŵyl Fwyd yn cael ei chynnal yn ystod benwythnos Gŵyl y Banc ym mis Mai (heb gadarnhau) ac fe fydd gŵyl 'Wakestock' yn cael ei gynnal ar y 10fed, 11eg a 12fed Orffennaf.

## ***5 – <u>Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics</u>***

***5.1*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***871*** o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn ystod 2008. Mae hyn yn llawer iawn llai mewn cymhariaeth â'r niferoedd a fu wedi cofrestru yn 2006, sef **337** yn llai. Nodi'r bod canran fwyaf o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru drwy'r swyddfa forwrol ym Mhwllheli (***403***) gyda ***68*** yn unig o Fadau Dŵr Personol yn cofrestru yn swyddfa'r harbwr.

***5.2*** Fel a nodi'r yn y tabl, cofrestrwyd **147** o gychod pŵer yn harbwr Pwllheli, ac fe gofrestrwyd ***65*** o gychod pŵer ar draeth Abersoch eleni. Mae ffi cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol yn ***£15.00*** drwy'r post, neu ***£20.00*** ar y traeth, neu yn swyddfa'r harbwr. Mae ffi lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor (cais drwy'r post.)

***5.3*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***148*** o gychod ar angorfa yn yr harbwr allanol eleni sef llawer yn is na'r nifer yn 2007. Mae hyn yn achosi pryder yn enwedig wrth ystyried y nifer fawr o gwsmeriaid a fydd ar restr aros yn yr Hafan.

Nid oes angorfa pontŵn gwag yn yr Hafan ac mae yna ***412*** o gychod ar angorfa pontŵn. Yn yr harbwr allanol, mae ***30%*** (44 llestr) o'r cychod yn rhai pŵer, gyda ***70%*** (104 llestr) yn gychod hwylio. Yn yr Hafan, mae ***48%*** (197 llestr) o'r cychod yn rhai pŵer, gyda ***52%*** (214 llestr) yn gychod hwylio, sef yr un nifer a 2007.

***5.4*** Yn y man, mae yna ***377*** o gychod ar y rhestr aros am angorfa yn y marina. Yn unol â rheoliadau'r Cyngor, mae pob unigolyn ar y rhestr aros wedi talu ***£50.00*** er mwyn sicrhau bod y cais yn ddilys.

## ***6*** ***Canlyniad Barn Cwsmer / Analysis of Customer Questionnaire***

***6.1*** Fe fydd adroddiad barn Cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno ger bron Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli yn y cyfarfod cyntaf yn 2009.

## ***7*** ***Cyllidebau / Budgets***

***7.1*** Atodir er gwybodaeth yr Aelodau, adroddiad cyllid terfynol harbwr a Hafan Pwllheli am y flwyddyn ariannol ***2007/08***. Atodir hefyd cyllid gwariant a thargedau incwm yr holl harbyrau a thraethau am y flwyddyn ***2008/09***.

***7.2*** Bydd angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fod y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Harbwr Feistri a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn darparu rhaglen waith manwl ar gyfer yr hydref a gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Mhwllheli.

***7.3*** Mae incwm yr harbwr allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol ***2008/09*** yn ***£118,250*** ac mae wedi cyrraedd ***£104,201*** hyd at ddiwedd Medi, sef ***£14,049*** yn fyr o'r targed. Mae'r targed incwm yr Hafan eleni yn ***£1,497,850***, ac mae'r incwm hyd yma wedi cyrraedd ***£1,373,774*** (adroddiad diwedd Awst) sef ***£124,076*** yn fyr o'r targed.

## ***7.4*** ***Chwyddiant 2009/10***

| ***Morwrol*** | **Chwyddiant** | **Incwm ychwanegol** |
|---|---:|---:|
| | | |
| Hafan | 4.95% | £74,290 |
| Doc Fictoria | 5.39% | £5,180 |
| Traethau | 3.01% | £6,330 |
| Harbyrau | 3.96% | £11,180 |
| | | |

Gwelir yn y tabl uchod, chwyddiant yn nhargedau incwm yr Uned Forwrol am y flwyddyn 2009/10. Fe fydd angen sicrhau bod yr holl dargedau incwm yn cael eu cyrraedd.